

## Diweddariad Chwarterol Ystadegau Cymru

### Chwefror 2018

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol i ddefnyddwyr ystadegau o Gymru ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar [ar ein calendr cyhoeddiadau](#)

#### Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

##### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)

Rydym wedi cyhoeddi [data wedi'i ddiweddarau](#) ar gyfer deg o'r dangosyddion sy'n sail i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ddiweddar. Roedd hyn yn cynnwys dangosyddion ar gyfer y parthau addysg ac iechyd, incwm ac amddifadedd cyflogaeth, a digwyddiadau tân; wedi'u rhannu i agregiadau daearyddol a grwpiau oedran amrywiol ar StatsCymru. Rydym wedi cynhyrchu sleidiau â rhywfaint o ddadansoddiadau diddorol ar gyfer yr ardaloedd â'r lefelau amddifadedd uchaf o ran y dangosyddion amddifadedd [cyflogaeth](#) ac [incwm](#), a rhai [dangosyddion cysylltiedig ag ysgolion](#). Rydym hefyd wedi gwella'r wybodaeth dechnegol am y dangosyddion. A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni beth yw eich barn, y da a'r drwg.

##### Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI)

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn diweddarau ei chyfres ar gyfer Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ym mis Mawrth 2018. Fel y gwnaethom y llynedd, byddwn yn dechrau gweithio ar fwy o [ddadansoddiadau a thablau manwl](#) ynghylch data tlodi Cymru. Os oes gennych chi adborth neu syniadau a allai fod yn ddefnyddiol, nawr yw'r amser i roi gwybod i ni.

##### Hunaniaeth Rywiol

Cyhoeddwyd [dadansoddiad o Hunaniaeth Rywiol yng Nghymru](#) ym mis Ionawr a oedd wedi'i rannu yn ôl rhyw, rhywedd, ethnigrwydd, statws priodasol, statws economaidd gymdeithasol a dosbarthiad trefol/gwledig.

#### Iechyd

##### Ystadegau Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r allbynnau cyntaf o gasgliadau data gwasanaethau cymdeithasol newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cael eu cyhoeddi. Mae modd gweld y rhain ar ein gwefan ac ar StatsCymru.

##### Cyhoeddiadau nodedig eraill

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei [ddatganiad Iechyd a'i Phenderfynyddion yng Nghymru](#)

Mae modd gweld yr holl gyhoeddiadau [yma](#)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: [ystadegau.iechyd@llyw.cymru](mailto:ystadegau.iechyd@llyw.cymru)

#### Llesiant Cymru

Cyhoeddwyd [Adroddiad Llesiant Cymru 2016-17 am y tro cyntaf](#) ar 25 Medi. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ein cynnydd fel cenedl tuag at gyflawni'r saith nod llesiant y cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arnynt yn 2015. Fe wnaethom gynnal arolwg o ddefnyddwyr yng nghyswllt yr adroddiad yn ddiweddar. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eich adborth hyd yn oed os na wnaethoch chi gymryd rhan yn yr arolwg.

Mae llawer o'r dangosyddion cenedlaethol wedi cael eu diweddarau drwy dudalennau rhyngweithiol yn y ddolen uchod wrth i ddata newydd ddod i law. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad blynyddol nesaf fis Medi 2018.

## Yr Economi a'r Farchnad Lafur

### Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)

Cyhoeddwyd data Gwerth Ychwanegol Gros ar gyfer 2016 ym mis Rhagfyr 2017 – mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi darparu amcangyfrif o'r Gwerth Ychwanegol Gros a elwir yn ddull cytbwys (GVA(B)), sy'n ddefnyddio cryfderau'r dulliau incwm (GVA (I)) a chynhyrchiant (GVA(P)). Mae'r amcangyfrifon hyn yn cael eu hystyried ystadegau arbrofol ar hyn o bryd, ond maent yn rhan o ddull GVA swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### Proffiliau Rhanbarthol Marchnad Lafur ac Economaidd

Cyhoeddwyd y proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd diweddaraf ar 21 Ionawr 2018 – mae'r tablau Gwerth Ychwanegol Gros bellach wedi cael eu diweddarau i gynnwys data awdurdodau lleol.

## Yr Amgylchedd a Thai

### Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS)

Mae disgwyl i'r gwaith maes ddod i ben ddiwedd mis Ebrill. Nid yw'r cyfraddau cydsynio (nifer y bobl sy'n cytuno i gymryd rhan yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru) wedi bod mor uchel ag yr oedden ni'n ei obeithio. Wedi dweud hynny, mae'r cyfraddau trosi (nifer y bobl sy'n cydsynio ac wedyn yn mynd ymlaen i gael arolwg) yn uwch na'r disgwyl; felly nid yw'r darlun mor llwm ag y gallai fod. O 1 Ionawr 2018 ymlaen, cyflwynwyd cymhelliad amodol o £10 er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn. Y nod yw y bydd y canlyniadau cyntaf ar gael yn ystod tymor yr hydref 2018, ac y bydd yr amcangyfrifon tiodi tanwydd wedi'u diweddarau erbyn diwedd 2018. Mae ymgynghoriad â rhanddeiliaid a defnyddwyr wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau'r flwyddyn eleni er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ledaenu'r data.

### Adnodd Dadansoddol y Stoc Tai yng Nghymru (HSAR)

Mae llawer o waith wedi'i wneud i ymgysylltu â defnyddwyr ac mae prif amcanion Adnodd Dadansoddol y Stoc Tai (yr Adnodd) wedi cael eu diffinio. Mae cysylltiadau wedi cael eu gwneud â sefydliadau a darparwyr data posibl sydd â phrofiad o greu adnoddau tebyg. Mae nifer o setiau data defnyddiol wedi dod i law ac mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau rhagor. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi cytuno mewn egwyddor ar y model cynnal a mynediad ar gyfer yr Adnodd. Yn fuan yn 2018, byddwn yn canolbwyntio ar greu cynnyrch profi cysyniad sy'n cysylltu'r setiau data sydd wedi dod i law hyd yn hyn ac yn datblygu porth StatsCymru er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr allanol gael mynediad at yr Adnodd. Bydd cais hefyd yn cael ei wneud i Bwyllgor Moeseg yr Ystadegydd Gwladol er mwyn cymeradwyo'r Adnodd yn foesebol.

### Datganiadau Ystadegol am yr Amgylchedd

Yn dilyn ymgynghoriad yn gynharach yn 2017, cafodd [data dros dro ar reoli gwastraff trefol awdurdod lleol](#) ar gyfer C1 2017-18 ei gyhoeddi ar ffurf pennawd a thablau StatsCymru ar 23 Tachwedd 2017. Cafodd yr ystadegau diweddaraf ynghylch [Tipio Anghyfreithlon a gofnodwyd gan Awdurdodau Lleol](#) eu cyhoeddi ar 27 Tachwedd 2017.

### Ystadegau Amaethyddol prawf wedi cael eu hychwanegu at StatsCymru

Ym mis Awst 2017, cafodd rhywfaint o ddata ynghylch [ystadegau amaethyddiaeth](#) ei ychwanegu at StatsCymru am y tro cyntaf. Mae'r data'n ymwneud ag amcangyfrifon ar gyfer 2014, ond y prif nod yw profi i ba raddau y byddai rhyddhau data o'r fath yn werthfawr i ddefnyddwyr. Rydym yn gofyn am adborth ar fanylion y dadansoddiadau sy'n cael eu dangos a'r categorïau sydd ynddynt.

## Trafnidiaeth

### Stats Cymru

Mae'r setiau data Stats Cymru diweddaraf yn cynnwys [cludo nwyddau ar y ffyrdd](#) ac [ystadegau chwarterol dros dro ar gyfer damweiniau ar y ffyrdd](#). Rydym hefyd wedi ychwanegu [data lefel damweiniau](#) (gyda chyfres o newidynnau nad ydynt yn sensitif).

## Arolwg Cenedlaethol

### Canlyniadau a dadansoddiad 2016-17

Ar 28 Mehefin 2017, fe wnaethom gyhoeddi'r [datganiad cyntaf](#) o arolwg 2016-17, ynghyd â thablau a siartiau yn ein [dangosydd canlyniadau excel](#). Ar ôl hyn, fe wnaethom gyhoeddi cyfres o allbynnau â phynciau penodol yn seiliedig ar ganlyniadau 2016-17: Ers y diweddariad diwethaf, rydym wedi cyhoeddi bwletinau ar y pynciau canlynol:

- [Ardaloedd a chymunedau lleol](#)
- [Gwirfoddoli a gofalu](#)
- [Gofal plant](#)
- [Teithio llesol](#)
- [Unigrwydd](#)

Byddwn hefyd yn cyhoeddi bwletin ar y gwasanaeth ambiwlans a lles meddyliol erbyn diwedd mis Chwefror. Mae modd gweld bwletinau blaenorol a rhai sydd ar y gweill ar [Wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#):

### Arolwg Cenedlaethol – 2017-18

Mae Arolwg Cenedlaethol 2017-18 yn cael ei gynnal ar hyn o bryd; mae'r [holiadur](#) wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

### Arolwg Cenedlaethol – 2018-19

Mae arolwg prawf 2018-19 yn barod ac mae'r holiadur terfynol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Mae rhestr o'r [pynciau](#) arfaethedig ar gyfer arolwg 2018-19 i'w gweld ar ein [gwefan](#).

Mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar gael ar [wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#) neu drwy gysylltu â [arolygon@llyw.cymru](mailto:arolygon@llyw.cymru)

## Manylion Cyswilt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau

E-bost: [desg.ystadegau@llyw.cymru](mailto:desg.ystadegau@llyw.cymru) Ffôn: 0300 060 4400

### Yn benodol i'r pwnc

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/about/contacts-statistics/?lang=cy>

### Twitter

<https://twitter.com/ystadegaucymru>

### Gwasanaeth newyddion a hysbysiadau e-bost Llywodraeth Cymru

<http://llyw.cymru/news-alerts/?lang=cy>

### Ymholiadau Gweinyddol

E-bost [GweinydduGGD@llyw.cymru](mailto:GweinydduGGD@llyw.cymru)